Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

14 Mawrth 2019

Elin Jones AC
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 13 Mawrth sy'n cynnwys yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).

Mae'r Pwyllgor wedi trafod yr amserlen arfaethedig. Er ein bod yn fodlon ar hyn o bryd i gytuno ar yr amserlen mewn egwyddor, rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi cael nifer fawr o ymatebion i'w hymgynghoriad ar y cynnig deddfwriaethol i ddileu'r amddiffyniad cosb resymol (dros 1800). Arweiniodd deddfwriaeth debyg a gyflwynwyd i Senedd yr Alban ym mis Medi 2018 443 o ymatebion fel rhan o ymgynghoriad y Pwyllgor cyfrifol ar ei egwyddorion cyffredinol. Mae hyn yn sylweddol uwch na nifer yr ymatebion a fyddai fel arfer yn dod i law ac y byddem yn eu hystyried yn ystod Cyfnod 1.

Os bydd nifer debyg o ymatebion yn dod i law, efallai y bydd angen i ni geisio mwy o amser i lunio ein hadroddiad Cyfnod 1 er mwyn ein galluogi i roi sylw digonol i farn yr holl ymatebwyr. Nid wyf am achub y blaen ar ein hymgynghoriad trwy ofyn am estyniad ar y cam cynnar hwn, fodd bynnag byddaf yn ysgrifennu eto ar ddiwedd ein hymgynghoriad (dechrau mis Mai 2019) i roi diweddariad ar ein cynnydd a'n gallu i adrodd erbyn 19 Gorffennaf 2019.

Os bydd angen estyniad i'n dyddiad cau ar gyfer Cyfnod 1, rydym yn hyderus - oherwydd toriad yr haf - y bydd ein hadroddiad yn cael ei gyhoeddi mewn pryd i osgoi unrhyw oedi yn y drafodaeth ar yr egwyddorion cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn, a drefnwyd ar gyfer 17 Medi 2019.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565